



Cynhyrchwyd ar ran: AQA, OCR, Pearson a CBAC

Hysbysiad i Ganolfannau

Hysbysu ymgeiswyr o'u marciau a aseswyd gan y ganolfan

Am flynyddoedd lawer bu gofyn i ganolfannau sicrhau bod ganddynt weithdrefn apeliadau mewnol ysgrifenedig sy'n ymwneud â phenderfyniadau asesu mewnol. Yn rhan o'r weithdrefn hon, mae'n **rhaidd** rhoi gwybod i ymgeiswyr pa farc y dyfarnodd eu canolfan iddynt am gydran/uned a asesir yn y ganolfan. Mae hyn yn berthnasol i gymwysterau TAG, TGAU a Phroject (**ond gweler Cwestiwn 1, tudalen 2**).

Bwriad y gofyniad hwn yw galluogi ymgeiswyr i wneud cais am adolygiad o farcio'r ganolfan cyn cyflwyno'r marciau i'r corff dyfarnu, os ydyn nhw'n dymuno gwneud hynny, a bydd yn hwyluso'r broses o adolygiad teg. Adlewyrchir hynny yn nogfen *Amodau a Gofynion Lefel Cymhwyster* y rheoleiddwyr.

Dylai canolfannau ddefnyddio'r broses safoni fewnol i sicrhau bod pob athro yn hyderus wrth gymhwyso safon y marcio yn gywir ac yn fanwl. Dylid defnyddio deunydd enghreifftiol ac unrhyw ganllawiau a ddarperir gan y corff dyfarnu. Dylai hyn helpu atal gwallau marcio ac osgoi ceisiadau gan ymgeiswyr am adolygiad o'r marc a ddyfarnwyd gan y ganolfan.

Er bod nifer o gonsortia, er enghraifft Ymddiriedolaethau Aml-Academi yn debygol o ddilyn gweithdrefnau cyffredin, y ganolfan unigol sydd i bennu sut i reoli cais am adolygiad o farcio. Bydd y dyddiadau cau a osodwyd ar gyfer marcio, trefniadau safoni mewnol, trefniadau staffio ac adnoddau i gyd yn ffactorau dylanwadol. Gellir rhoi rhyddid i bob Adran Pwnc gymhwyso'r gofynion yn y ffordd fwyaf ymarferol.

Efallai yr hoffai canolfannau gyhoeddi polisi i ymgeiswyr a'u rhieni/gofalwyr. Mae templed y gall canolfannau ei ddefnyddio i'w gael yn: <https://www.jcq.org.uk/exams-office/non-examination-assessments/reviews-of-marking-centre-assessed-marks-suggested-template-for-centres>. Mae manylion pellach i'w cael yng nghyhoeddiad y CGC *Cyfarwyddiadau ar gynnal asesiadau di-arholiad* - <https://www.jcq.org.uk/exams-office/non-examination-assessments/instructions-for-conducting-non-examination-assessments>

Mae cyrff dyfarnu sy'n aelodau o'r CGC wedi llunio rhai Cwestiynau Cyffredin sydd wedi'u nodi ar dudalennau 2-7.

Cwestiynau Cyffredin (FAQs)

Ble mae'r gofyniad yn berthnasol?

1. **A yw'r gofyniad i hysbysu ymgeiswyr o'u marciau canolfan yn berthnasol i gymwysterau ar wahân i gymwysterau TAG, TGAU a Phroject?**

Er bod y gofyniad i hysbysu ymgeiswyr o'u marciau yn berthnasol i gymwysterau TAG, TGAU a Phroject yn unig, atgoffir canolfannau o'r hyn a nodir yng nghyhoeddiad y CGC *Rheoliadau Cyffredinol ar gyfer Canolfannau Cymeradwy*. Mae'r ddogfen hon yn nodi bod yn **rhaidd** i ganolfannau gael gweithdrefn apeliadau mewnol ysgrifenedig sy'n ymwneud â phenderfyniadau asesu mewnol ym mhob cymhwyster. **Rhaidd** i fanylion y weithdrefn hon gael eu rhannu'n eang a rhaid iddynt fod yn hygyrch i bob ymgeisydd. Rhan bwysig o'r weithdrefn hon yw sicrhau bod eu marciau ar gael i ymgeiswyr.

Gellir llwytho i lawr gyhoeddiad y CGC *Rheoliadau Cyffredinol ar gyfer Canolfannau Cymeradwy* o wefan y CGC: <https://www.jcq.org.uk/exams-office/general-regulations>

2. **A yw'r gofyniad i hysbysu ymgeiswyr o'u marciau canolfan yn berthnasol i'r Gymeradwyaeth Iaith Lafar ar gyfer TGAU Saesneg Iaith a'r Gymeradwyaeth Sgiliau Ymarferol ar gyfer y Gwyddorau Safon Uwch (Cymwysterau wedi'u hachredu gan Ofqual yn unig)?**

Ydy. Efallai bydd tystiolaeth yn gyfyngedig ond gallai gynnwys cofnodion ysgrifenedig ac, yn yr iaith Lafar, recordiadau cymeradwyaeth, os ydyn nhw ar gael.

3. **A yw'r gofyniad i hysbysu ymgeiswyr o'u marciau canolfan yn berthnasol i gymwysterau sydd â mwy nag un gydran a asesir yn fewnol, e.e. i'r ddwy gydran Celf a Dylunio, sy'n cael eu hasesu 100% yn fewnol, ac a oes rhaid rhoi marciau ar gyfer yr holl gydrannau a asesir yn fewnol i ymgeiswyr?**

Ydy. Ym mhwnc Celf a Dylunio, ynghyd â phynciau eraill sydd â mwy nag un gydran a asesir yn fewnol, mae'n rhaid rhoi marciau ymgeiswyr i gyd iddyn nhw a gallan nhw wneud cais am adolygiad o un neu fwy o'r marciau hynny.

Cais am Adolygiad

4. **Beth ddylai canolfan ei wneud os caiff ei herio am farc ymgeisydd cyn cymedroli?**

Yn y lle cyntaf dylai'r ganolfan ddilyn ei gweithdrefn apeliadau mewnol gyhoeddedig, y mae'n rhaid i'r ganolfan nodi ei threfniadau ynddi ar gyfer cynnal adolygiad o farciau a asesir yn fewnol. Dylai canlyniad yr adolygiad bennu'r marc sydd i'w gyflwyno i'r corff dyfarnu.

Yr egwyddor yw bod y ganolfan yn cyflwyno marciau sydd wedi eu safoni'n fewnol ganddi cyn eu cyflwyno i'r corff dyfarnu. Yna bydd hyn yn galluogi cynnal proses gymedroli'r corff dyfarnu yn llwyddiannus.

5. Beth ddylai canolfan ei wneud os yw'n cael ei herio am farc ymgeisydd ar ôl cymedroli?

Mae'n rhaidd cwblhau'r broses adolygu fewnol cyn dyddiad cau cyflwyno marciau'r corff dyfarnu. Mae'n rhaidd rhoi gwybod i unrhyw ymgeisydd sy'n cyflwyno ceisiadau hwyrach am adolygiad eu bod yn rhy hwyr. Mae'n rhaidd i ganolfannau gyhoeddi a rhannu terfynau amser clir i'r ymgeiswyr fel y gallant wneud cais am adolygiad o'r marc cyn y dyddiad cyflwyno marciau.

6. Pa ddeunyddiau dylai'r ganolfan sicrhau eu bod ar gael i ymgeiswyr fel y gallant benderfynu a ydyn nhw am barhau â chais am adolygiad o asesiad mewnol?

Yn gyffredinol, dylai copïau o'r deunyddiau asesu wedi'u marcio a'r cynllun marcio neu'r meini prawf asesu fod ar gael, o leiaf. Gall deunyddiau ychwanegol amrywio o bwnc i bwnc. Ar gyfer rhai deunyddiau asesu wedi'u marcio, megis gwaith celf a recordiadau, efallai y byddai'n fwy priodol eu rhannu dan amodau o dan oruchwyliaeth.

7. Beth yw ystyr 'digon o amser' i ymgeisydd astudio copïau o ddeunyddiau a phenderfynu p'un a yw'n dymuno gofyn am adolygiad o'r marc a roddwyd gan y ganolfan?

Dylai canolfannau caniatáu o leiaf pum diwrnod gwaith fel arfer, er y gall hyn amrywio, yn dibynnu ar, er enghraifft, y pwnc, maint y garfan a nifer yr athrawon y pwnc hwnnw yn y ganolfan. Dylai canolfannau roi dyddiad cau clir i ymgeiswyr, sy'n ystyried yr amser y bydd yn ei gymryd i adolygu unrhyw farciau a chyflwyno'r marciau terfynol i'r corff dyfarnu erbyn y dyddiad cyhoeddedig. Ni ddylid caniatáu i ymgeiswyr gael mynediad at ddeunydd asesu gwreiddiol, yn cynnwys arteffactau, oni bai eu bod yn cael eu goruchwyllo.

8. A fydd corff dyfarnu yn caniatáu i farciau a asesir yn y ganolfan gael eu cyflwyno ar ôl y dyddiad cau sydd wedi'i gyhoeddi yn benodol i fodloni ceisiadau ymgeiswyr am adolygiadau o asesiad mewnol?

Na fydd. Ni fydd corff dyfarnu yn caniatáu i ganolfan gyflwyno marciau a asesir yn y ganolfan ar ôl y dyddiad cau yn benodol i fodloni ceisiadau ymgeiswyr am adolygiadau o asesiad mewnol. Mae angen cwblhau adolygiad erbyn dyddiad cau cyflwyno marciau i'r corff dyfarnu.

9. Ai'r unig amser y gall ymgeisydd wneud cais am adolygiad o farc asesiad mewnol yw ar ôl canfod problem neu broblemau?

Dylai canolfannau hysbysu ymgeiswyr y bydd angen iddyn nhw esbonio ar ba sail y maen nhw am wneud cais am adolygiad o farc asesiad mewnol. Efallai y bydd canolfannau yn dymuno diystyru cwynion ynglŷn ag ansawdd addysgu gan y bydd yr adolygiad yn canolbwyntio ar ansawdd y gwaith a gyflwynwyd. Ar ôl adolygu'r copïau o ddeunyddiau sydd ar gael iddo/iddi, bydd angen i'r ymgeisydd esbonio beth yw'r broblem yn ei farn ef/hi.

Yn y rhan fwyaf o achosion mae'n debygol y bydd ymgeiswyr sy'n gwneud cais am adolygiadau yn credu nad yw'r marciau a ddyfarnwyd iddyn nhw yn rhoi credyd digonol am fodloni'r meini prawf yn y deunyddiau asesu. Yn gyffredinol, mae ymgeiswyr yn annhebygol o wneud cais am adolygiad ar y sail nad yw eu marc yn cyfateb i'r safonau a osodwyd gan y ganolfan. Pwrpas rhoi'r meini prawf asesu i ymgeiswyr yw eu galluogi i werthuso p'un a yw'r meini prawf wedi'u cymhwyso'n gywir.

Mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn deall y gallai'r broses gymedroli a gynhelir gan y cyrff dyfarnu arwain at newid marc, naill ai fyny neu i lawr, hyd yn oed ar ôl adolygu mewnol. Mae'r broses adolygu fewnol ar waith er mwyn sicrhau cysondeb marcio yn y ganolfan, tra bod cymedroli gan y corff dyfarnu yn sicrhau bod marcio'r ganolfan yn unol â safonau cenedlaethol. Gallai'r marc a gyflwynwyd i'r corff dyfarnu newid ac felly dylid ei ystyried yn farc dros dro.

10. A yw'r ganolfan yn cael codi tâl ar ymgeiswyr am adolygiad mewnol?

Penderfyniad y ganolfan yw hyn yn llwyr, a gall gyfateb o bosibl i unrhyw bolisiau eraill y ganolfan am godi tâl am wasanaethau, megis gwiriadau clerigol ac adolygiadau o farcio corff dyfarnu.

Yr Adolygiad

11. A ddylid adolygu'r marc a ddyfarnwyd ynteu'r broses sy'n arwain at ddyfarnu'r marc?

Dylid adolygu'r marc a ddyfarnwyd, gan gadarnhau p'un a yw marc yr ymgeisydd yn unol â'r safon a osodwyd ar gyfer yr ymgeiswyr eraill yn y ganolfan ai peidio. Bydd y canlynol yn cael ei adolygu:

- gwaith yr ymgeisydd (lle mae'r dystiolaeth o hyn yn fyrhoedlog, er enghraifft ym mhynciau Drama neu Gerddoriaeth, yna dylid rhoi recordiad o'r gwaith i'r adolygwr);
- y daflen farciau a gwblhawyd gan yr athro sydd fel arfer yn dangos y dyraniad marciau fesul Amcan Asesu (AA) neu adran o'r cynllun marcio;
- gwybodaeth ynghylch unrhyw safoni mewnol i ganfod p'un a gymhwyswyd safonau cyson at waith yr ymgeisydd hwn gan y marciwr gwreiddiol; ac
- unrhyw sylwadau/anodiadau a wnaed gan yr athro yn ystod y broses farcio.

(Gweler hefyd gwestiwn 14).

12. Pwy ddylai gynnal yr adolygiad o farc a aseswyd yn fewnol lle mae'r ymgeisydd yn gwneud cais am un?

Mae'n rhaid i'r adolygiad gael ei gynnal gan aseswr sydd â chymhwysedd priodol, sydd heb ymwneud ag asesu'r ymgeisydd yn y gydran dan sylw o gwbl yn flaenorol, a heb fudd personol o gwbl yng nghanlyniad yr adolygiad.

Gall naill ai fod yn athro arall yn y ganolfan, neu'n athro o ganolfan arall.

Fodd bynnag, byddai angen i'r ganolfan sicrhau bod yr adolygwr wedi datgan unrhyw wrthdaro buddiannau cyn cynnal yr adolygiad.

Mae'n dderbyniol i athro, sydd wedi cael ei safoni'n fewnol, adolygu gwaith ymgeisydd sydd wedi'i farcio gan athro arall yn yr un ganolfan. Fodd bynnag, os oedd gwaith yr ymgeisydd yn rhan o broses safoni mewnol y ganolfan, ni fyddai'n bosibl i'r athro a gymerodd ran yn y broses safoni fewnol adolygu gwaith yr ymgeisydd ar ôl hynny.

Ar gyfer canolfannau mawr, gallai trefniadau safoni mewnol alluogi is-grwpiau gwahanol o athrawon i farcio, safoni a chynnal unrhyw adolygiadau mewn trefniant matrices.

Ar gyfer canolfannau bach, lle mae ychydig o staff yn unig, gall fod angen i'r ganolfan ystyried p'un a oedd yr ymgeisydd dan sylw 'yn y sampl' ar gyfer safoni mewnol ai peidio, ac felly eisoes wedi'i weld gan y staff Adrannol i gyd. Efallai yr hoffai'r ganolfan ystyried safoni aelod arall o staff mewn adran arall, mewn pwnc cysylltiedig, er mwyn cynnal adolygiadau o farcio. Fel arall gallai'r ganolfan allanoli gwaith adolygiadau o farcio, er enghraifft i athro mewn ysgol arall.

13. A fydd allanoli'r adolygiad o farc asesu mewnol yn torri cyfrinachedd deunyddiau asesu a data ymgeisydd?

Na fydd. Ni ddylid trafod deunyddiau asesu cyfrinachol ag unrhyw berson nad yw'n uniongyrchol gysylltiedig â chynnal nac asesu'r dasg/tasgau, na'u hanfon atyn nhw. Fodd bynnag, oherwydd bod yr adolygwr yn gysylltiedig â'r broses asesu, nid yw cyfrinachedd yn cael ei dorri. O ran data ymgeisydd, mae'n rhaid i unrhyw bartion allanol gydymffurfio â pholisi diogelu data'r ganolfan.

14. Sut dylid cynnal yr adolygiad?

Gall gwahanol ddulliau gweithredu fod yr un mor ddilys â'i gilydd, yn dibynnu ar y pwnc penodol. Fodd bynnag, nid yw tasg yr adolygwr yn amrywio. Mae'n bwysig bod yr adolygwr yn cael rhai deunyddiau o broses safoni mewnol y ganolfan a gynhaliwyd cyn rhyddhau'r marciau i ymgeiswyr, yn ogystal â'r gwaith sy'n cael ei adolygu. Bydd angen i ganolfannau sicrhau eu bod yn cadw deunyddiau safoni mewnol at y pwrpas hwn. Byddai angen i'r adolygwr weld gwaith yr ymgeisydd, taflen farciau'r aseswr mewnol ac unrhyw anodiadau neu sylwadau sy'n dangos sut/pam y dyfarnwyd marc penodol.

Mae'n **rhaid** ystyried y rhain yng nghyd-destun y deunyddiau safoni mewnol a ddarparwyd er mwyn sicrhau dull cyson ar gyfer ymgeiswyr eraill yn yr un ganolfan. Lle na chynhaliwyd unrhyw safoni mewnol (oherwydd bod un athro yn unig yn ymwneud â marcio'r gydran), mae'n rhaid ystyried gwaith ymgeiswyr eraill yn y garfan i sicrhau y gellir gwneud penderfyniadau ar gysondeb safonau.

Argymhellir bod yr adolygiad yn digwydd yn y ganolfan er mwyn cynnal cywirdeb y gwaith ac i sicrhau ei fod yn cael ei storio'n ddiogel. Os oes rhaid cynnal yr adolygiad o bell, yna dylid cadw'r deunyddiau gwreiddiol yn y ganolfan, a dylid rhoi copïau o waith yr ymgeisydd i'r adolygwr.

Mae'n **rhaid** ei gwneud yn glir i'r adolygwr, yr athro a'r ymgeisydd nad yw'n bosibl i unrhyw un newid y gwaith ar ôl i'r aseswr mewnol ddarparu marc ar gyfer yr ymgeisydd.

Mae'n **rhaid** i'r adolygwr roi rheswm dros gadarnhau neu newid y marc a ddyfarnwyd gan y ganolfan. Gallai hyn fod yn anodi byr ar y ffurflen gofnodi, yn dangos crynodeb yr adolygwr o'r marciau fesul Amcan Asesu (AA) neu adran.

Mae'n rhaid hysbysu'r ymgeisydd yn ysgrifenedig o ganlyniad yr adolygiad a dylid ei gofnodi a'i ddwyn i sylw pennaeth y ganolfan. Mae'n rhaid i'r cofnod ysgrifenedig fod ar gael i'r corff dyfarnu ar gais.

Os yw'r adolygiad yn codi pryderon ehangach, er enghraifft am y ffordd y cymhwysodd y ganolfan y meini prawf asesu, dylai'r adolygwr drafod y rhain gyda'r pennaeth adran/pennaeth y ganolfan fel sy'n ofynnol. Dylid ceisio cyngor pellach gan y corff dyfarnu os yn briodol.

15. Os yw adolygwr allanol yn anghytuno â'r marcio, a oes rhaid i'r ganolfan dderbyn y marc newydd?

Dylid cyfarwyddo'r adolygwr i sicrhau bod marc yr ymgeisydd yn gyson â safon marcio'r ganolfan. Mae'n ofynnol iddo/iddi gywiro unrhyw wall marcio.

Y tri math o wall marcio yw:

- gwall gweinyddol;
- methiant i gymhwyso'r meini prawf marcio at y dystiolaeth a gynhyrchwyd gan yr ymgeisydd lle nad oedd y methiant hwnnw yn cynnwys ymarfer barn academiaidd; neu
- arfer barn academiaidd yn afresymol.

Os yw'r adolygwr yn penderfynu bod gwall marcio, mae'n **rhaid** iddo/iddi ddangos lle mae'r gwall marcio hwnnw wedi digwydd a sut nad yw'r marc yn cyfateb i safon ymgeiswyr eraill yn y ganolfan. Penderfyniad y ganolfan yw p'un a yw unrhyw wahaniaeth yn y marcio hwnnw o fewn unrhyw oddefiannau y byddai'r ganolfan yn eu caniatáu yn ystod ei phroses safoni mewnol. Pennaeth y ganolfan fydd yn penderfynu os oes unrhyw anghytuno ar y marc i'w gyflwyno i'r corff dyfarnu.

Ar ôl yr adolygiad

16. A fydd y corff dyfarnu yn gofyn i'r ganolfan gyflwyno'r gwaith a adolygwyd i'w gymedroli?

Bydd y corff dyfarnu yn defnyddio ei system samplu safonol i nodi gwaith ymgeiswyr i'w gyflwyno i'w gymedroli. Gallai hyn gynnwys ymgeiswyr yr adolygwyd eu marciau.

17. A all ymgeiswyr gynhyrchu gwaith ychwanegol ar ôl canlyniad adolygiad er mwyn gwella'r marc sydd wedi'i ddyfarnu iddyn nhw gan y ganolfan?

Na allent. Nid cyfle i ymgeiswyr geisio gwella eu marc ar ôl dyddiad cau cyflwyno gwaith terfynol y ganolfan yw hwn. Pwrpas penodol y gwasanaeth yw rhoi cyfle i herio'r marc a ddyfarnwyd gan y ganolfan, ar waith a gyflwynwyd eisoes i'w asesu.

18. Pwy sydd â'r cyfrifoldeb cyfreithiol am degwch a chyfreithlondeb y marciau a'r graddau a ddyfarnwyd?

Y ganolfan sy'n gyfrifol am ddilyn y rheoliadau a'r prosesau a osodwyd gan gorff dyfarnu, yn cynnwys asesu mewnol. Dylid cyfeirio unrhyw her gyfreithiol a wnaed yn erbyn canolfan ynglŷn â marc a ddyfarnwyd yn rhan o gymhwyster at y corff dyfarnu perthnasol.

Fodd bynnag, os gwneir yr her cyn i'r cymedroli ddigwydd, byddai angen i'r achwynydd aros tan i'r broses gymedroli gael ei chwblhau. Yn rhan o her o'r fath, byddai angen i'r corff dyfarnu fodloni ei hun fod y ganolfan wedi dilyn y prosesau cywir. Cyrff dyfarnu sy'n gyfrifol am y graddau a'r dyfarniadau a wnânt.